

Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, 3 Ebrill 2017
Pwyntiau Gweithredu

Aelodau'r Tasglu
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC (Cadeirydd)
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC
Ann Beynon, Cadeirydd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Jocelyn Davies, Cyn Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio
Andrew Diplock, Entrepreneur, Cynghorydd Busnes a Buddsoddwr Angel
Dr Chris Jones, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC
Yr Athro Brian Morgan, Prifysgol Caerdydd
Fiona Jones, Cyfarwyddwr, yr Adran Gwaith a Phensiynau
Gaynor Richards, Cyfarwyddwr, Cyngor Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot
Jo Foster, Arweinydd Cysylltiadau Llywodraeth a Busnes, GE Aviation
Aelodau'r Bwrdd
Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
Huw Morris, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr Grŵp SHELL
Owen Evans, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol dros Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Maureen Howell, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr Cydraddoldeb a Ffyniant
John Howells, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio
Cyflwynwyr
Rhodri Asby, Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth ERA, Llywodraeth Cymru
Gerwyn Evans, Pennaeth Datblygu Twristiaeth, Llywodraeth Cymru
Dr David Llewellyn, Rheolwr Gyfarwyddwr Blaengad Cyf
Andrew Osborne, Pennaeth Cefn Gwlad, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Gwesteion
John Hogg – Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru
Ysgrifenyddiaeth y Tasglu
Lucy Hoddinott, Llywodraeth Cymru

1: Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (ARD) aelodau'r tasglu i'r pedwerydd cyfarfod. Rhoddodd ARD wybod y newyddion diweddaraf i'r aelodau am ganlyniadau'r digwyddiadau a gynhaliwyd hyd yma i feithrin cysylltiadau â'r cyhoedd. Gofynnodd i'r aelodau gynnig sylwadau ar y ffrydiau gwaith a oedd wedi dod i'r amlwg drwy ddadansoddi'r canlyniadau. Trafododd yr aelodau y gwaith o feithrin cysylltiadau a'r ffrydiau gwaith, a chytunant fynd i weithdai a fyddai'n arwain at ddatblygu cynllun cyflawni.

2: Mapio'r Cymoedd

Cyflwynodd cynrychiolydd o'r Adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) fap o ardal y cymoedd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gymharu data economaidd, darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, a datblygiadau trafniadaeth wedi'u cynllunio ar draws yr ardal. Roedd prif bwytiau'r drafodaeth yn cynnwys:

- Bod angen cydweithio ag awdurdodau lleol ar draws yr ardal, yn ogystal â Bargeinion Dinesig, er mwyn rhannu data a datblygu'r map ymhellach.
- Pwysigrwyd y map o ran gallu nodi'r bylchau presennol a'r posibiladau ar gyfer prosiectau mawr fel y Metro.
- Bod dull seiliedig ar leoedd ar gyfer ymyriadau yn bwysig i gynorthwyo'r ardaloedd hynny sydd eu hangen fwyaf.
- Bod gormod o sylw'n cael ei roi ar hyn o bryd i goridor yr M4. Roedd y tasglu'n cydnabod pwysigrwyd yr M4 i fusnesau a thrafodwyd y cyfyngiadau ffisegol ar fusnesau mewn rhai o gymunedau'r cymoedd.
- Bod angen sicrhau bod arian a wariwyd yn y cymoedd yn cael ei wario yn y ffordd orau bosibl.

3: Yr Amgylchedd – Cyflawni Nifer o Fanteision

Rhoddodd cynrychiolwyr o sector yr amgylchedd a'r sector twristiaeth yn Llywodraeth Cymru gyflwyniad a oedd yn rhoi sylw i fanteision amgylcheddol a'r cyfleoedd ym maes twristiaeth yn y cymoedd. Roedd prif bwytiau'r drafodaeth yn cynnwys:

- Bod angen targedu seilwaith sy'n cefnogi cyfleoedd ym maes twristiaeth ac sydd o fudd i gymunedau lleol yn y cymoedd.
- Bod angen gwell cydweithredu rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, awdurdodau cynllunio a'r sector preifat i gefnogi buddsoddiad a datblygu cyfleoedd ym maes twristiaeth yn ardaloedd y cymoedd.
- Y ffyrdd y gallai seilwaith gwyrdd a thwristiaeth gael eu defnyddio'n effeithiol yng nghymunedau'r cymoedd i sicrhau swyddi, ynni adnewyddadwy a manteision cymunedol.
- Pwysigrwyd newid agweddau mewn perthynas â'r math o swyddi a allai fod ar gael yn sector yr amgylchedd a'r sector twristiaeth.
- Y cyfleoedd posibl ar gyfer gwahanol ffrydiau refeniw yn dilyn Brexit i ariannu prosiectau amgylcheddol mewn meysydd fel bioamrywiaeth a rheoli dŵr.

4: Yr Amgylchedd – Asedau a Chyfleoedd

Roedd David Llewellyn ac Andrew Osborne wedi rhoi cyflwyniad ar waith a wnaethant fel rhan o brosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd rhwng 2007 a 2014. Roeddent hefyd wedi amlinellu'r chyfleoedd ar gyfer dull tebyg seiliedig ar leoliadau i adfywio'r gymuned a fyddai'n cynorthwyo cynlluniau sy'n cael eu harwain gan y gymuned ac yn sicrhau manteision cymunedol. Roedd prif bwytiau'r drafodaeth yn cynnwys:

- Pwysigrwydd cydweithio ag awdurdodau lleol i nodi lleoedd a allai gael eu datblygu a gwneud penderfyniadau pellgyrhaeddol.
- Bod angen tegwch yn hytrach na chydaddoldeb pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Llywodraethu cryf oedd yr unig ffordd i alluogi newid. Er bod cydweithio'n bwysig, roedd angen llywodraethu cryf cyn y gallai unrhyw beth gael ei gyflawni.
- Bod angen rhoi'r cyfle i gymunedau ddatblygu eu syniadau eu hunain fel rhan o fframwaith strategol.
- Y cyfle i ddatblygu'r gallu i brosesu mewn meysydd fel bwyd, coedwigaeth ac ynni er mwyn darparu cadwyn gyflenwi leol.

Y cyfarfod nesaf: 12 Mehefin 2017

Cloi.